PROSIECT GWYRDD DATGANIAD I'R WASG

Chwefror 5 2010

Troi problem yn adnodd

Sefydlu Grŵp Ffocws Prosiect Gwyrdd

Fel rhan o'r ymgyrch barhaus i ymgysylltu â'r cyhoedd, bydd Prosiect Gwyrdd yn cynnal y grŵp ffocws cyntaf yr wythnos nesaf, gyda detholiad o breswylwyr o bob rhan o'r pum ardal awdurdod.

Bydd cyfarfodydd y Grŵp Ffocws yn egluro proses gaffael y Prosiect i tua 50 o breswylwyr gan roi cyfle iddynt ymgysylltu ag aelodau o'r Tîm Prosiect. Bydd y grŵp mor rhagweithiol â phosibl gan sicrhau bod y rheiny sy'n mynychu yn deall y materion ac yn gallu gofyn unrhyw gwestiynau a allai fod ganddynt.

Mae'r preswylwyr sydd ar y grŵp ffocws wedi mynegi diddordeb yn y Prosiect drwy fforymau sy'n bodoli eisoes ym mhob un o'r awdurdodau, sy'n cynnwys Paneli Dinasyddion, Fforwm Pobl Iau, Fforymau Pobl Hŷn, Fforymau Gwastraff a'r rheiny sydd wedi cysylltu â'r Cyngor/ Cynghorau yn y gorffennol ac wedi mynychu diddordeb mewn cyfranogiad cyhoeddus.

Dywedodd y Cynghorydd Stephens, Cadeirydd y Cydbwyllgor sy'n llywodraethu'r prosiect:

> "Ynghyd â'r sioeau teithiol, mae'r grŵp ffocws hwn yn rhan o'r ymgyrch barhaus i geisio cael cymaint o bobl a phosibl i gymryd diddordeb yn y Prosiect. Datblygwyd gwefan - www.prosiectgwyrdd.co.uk – er mwyn i bawb weld y nod a'r opsiynau posibl sydd ar gael. Gellir cysylltu â'r Tîm Prosiect drwy e-bost - info@prosiectgwyrdd.co.uk – neu dros y ffôn, 02920 717523."

Bydd y sesiwn gyntaf yn edrych ar y cyd-destun cenedlaethol, sut bydd y Prosiect yn cyfathrebu â'r cyhoedd, trosolwg o'r bartneriaeth hyd yn hyn a'r technolegau posibl sydd ar gael yn y farchnad i drin y 30% sy'n weddilliol o'r gwastraff ar ôl gwneud y gorau o ailgylchu a chompostio ym mhob ardal. Rhoddir cyfleoedd i aelodau o'r Grŵp Ffocws gyflwyno eu syniadau o ran sut y byddent yn hoffi gweld y sesiynau yn cael eu cynnal yn y dyfodol.

Mae'r Grŵp Ffocws yn bwriadu egluro proses gaffael y Prosiect i breswylwyr drwy ddau neu dri digwyddiad bob blwyddyn. Gwneir pob ymdrech i ymgysylltu mewn ffordd glir gan sicrhau bod pawb y n bresennol yn deall ac yn cael cyfle i ymgysylltu ag aelodau o'r Tîm Prosiect.

a gyhoeddwyd gan prosiect gwyrdd
e-bost: info@prosiectgwyrdd.co.uk
dros y ffôn: 029 20 717523